



## 2. Argymhellion Blaenorol

### 2.1 Camau Cywirol

**2.1.1 (SGC 6.6)** Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y staff, rheolwraig, preswlydd neu berthynas y preswylwyr, er mwyn dangos tystiolaeth cynwysoldeb wrth ddatblygu'r Cynllun Gwasanaeth.

**Gweithred wedi'i chwblhau'n rhannol:** Mae rhai cynlluniau gwasanaeth wedi cael eu llofnodi ond nid pob un.

**2.1.2 (SGC 6.10)** Sicrhau bod adolygiad 6 misol o gynlluniau gwasanaeth yn cael eu cyflawni gyda thystiolaeth briodol.

**Gweithred wedi'i chwblhau:** Gwelwyd tystiolaeth ar gynlluniau gwasanaeth bod adolygiadau yn cael eu cynnal bob tri mis, a oedd hefyd yn cael eu llofnodi gan aelod staff a'r preswlydd.

**2.1.3 (SGC 27.4)** Sicrhau bod goruchwyliaeth deufisol yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl staff.

**Gweithred wedi'i chwblhau:** Cofnodion goruchwyllo yn dangos sesiynau deufisol rheolaidd ar gyfer yr holl staff.

### 2.2 Camau Datblygiadol

**2.2.1** I nodi tystiolaeth bod yr holl staff gofal wedi gweld a darllen y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer pob preswlydd gan ddefnyddio taflen arwyddo.

**Gweithred wedi'i chwblhau'n rhannol:** Roedd y cynlluniau gwasanaeth a welwyd â thaflen arwyddo ac wedi eu darllen a'u llofnodi gan rai staff ond nid pob un.

**2.2.2** Copi o adroddiad SA i'w hanfon ymlaen at y tîm Comisiynu a rhannu gyda'r holl randdeiliaid.

**Gweithred wedi'i chwblhau:** Derbyniwyd adroddiad Sicrwydd Ansawdd ar gyfer 2015.

**2.2.3** Sicrhau bod taflenni cofnodi dyddiol yn cael eu diweddarau a'r holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi.

**Gweithred wedi'i chwblhau:** Mae dogfennaeth newydd ar waith sy'n rhestru gweithgareddau ac mae blychau ticio er mwyn lleddfu gwaith y staff i'w cwblhau.

## 3. Canfyddiadau'r Ymweliad

### 3.1 Cynllunio Gwasanaeth

**3.1.1** Nodwyd bod y ffeiliau preswyl yn parhau i gael eu cadw'n ddiogel yn yr ystafell gysgu, sy'n cael ei chadw dan glo pan nad yw'n cael ei defnyddio.

**3.1.2** Cafodd cynllun gwasanaeth y preswlydd ei groesgyfeirio gyda chynllun gofal a thriniaeth CBSC. Gwelwyd ei fod yn gyson ac yn cynnwys yr holl anghenion a nodwyd gan y cynllun gofal.

**3.1.3** Caiff adolygiadau o'r cynlluniau gofal eu cynnal bob 3 mis, sy'n amlach na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl amserlen chwe mis y safonau gofynnol cenedlaethol.

### **3.2** Asesiadau Risg

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer ffeiliau'r preswylwyr yr ystyriwyd, mewn perthynas â meysydd fel ymddygiad heriol a pherygl o grwydro. Roedd hefyd asesiadau risg manwl o gwmpas epilepsi ar gyfer un preswlydd. Roedd yr asesiadau risg yn cynnwys camau gweithredu manwl ar sut i ymdrin â, a rheoli'r risgiau a nodwyd.

### **3.3** Ffeiliau a Dogfennau

**3.3.1** Roedd y ffeiliau a gwelwyd wedi'u cyflwyno'n dda ac yn hawdd i'w dilyn. Roeddent yn gynhwysfawr ac yn hawdd i ddod o hyd i bethau.

**3.3.2** Cofnodwyd gwybodaeth ddyddiol gan ddefnyddio dull taflen blychau ticio, ac er bod hyn yn cynnwys y tasgau a gyflawnir ac unrhyw bryderon, nid oedd yn rhoi darlun o fywyd a lles bob dydd y preswlydd. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod hyn yn ddogfennaeth safonol PRESS.

### **3.4** Dull Gofalu

**3.4.1** Mae aelodau staff yn annog preswylwyr a pherthnasau i gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'u gofal ac i'r cartref. Mae trafodaethau agored bob dydd ac mae'r rheolwraig yn adrodd perthynas dda gyda theuluoedd y preswylwyr.

**3.4.2** Mae Cynlluniau Gwasanaeth yn ymgorffori Cynllun sy'n Canolbwyntio ar y Person sy'n rhoi tystiolaeth meysydd o weithgaredd y mae'r trigolion yn cael eu hannog i gymryd rhan ynddynt e.e. paratoi prydau bwyd, gwaith tŷ a garddio. Mae preswylwyr yn cymryd rhan wrth baratoi a choginio bwyd a hefyd y siopa am y cynhwysion.

**3.4.3** Mae aelodau staff yn parhau i hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy rymuso a chefnogi preswylwyr i gynnal cymaint o weithgareddau bywyd bob dydd ag y bo modd, h.y. tasgau domestig. Mae'r staff cymorth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth, ac o ganlyniad yn deall y preswylwyr a'u galluoedd, beth maent yn hoffi, beth nad ydynt yn hoffi, a beth allai achosi unrhyw bryderon ac yn y blaen.

### **3.5** Cwynion a Chanmoliaeth

**3.5.1** Nid oes unrhyw gwynion wedi cael eu derbyn gan Wasanaethau Cymdeithasol ers yr ymweliad monitro blaenorol.

**3.5.2** Yn ystod yr ymweliad edrychwyd ar y llyfr gwynion ac nid oedd unrhyw gwynion wedi eu nodi ers Ebrill 2014.

### **3.6** Adborth Rhanddeiliaid

**3.6.1** Cysylltodd y Swyddog Monitro Contractau gydag un o'r perthnasau er mwyn cael adborth ar y gwasanaethau a ddarperir, a dywedwyd wrthi ei bod yn hynod o hapus gyda'r gofal sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ei brawd. Mae hi'n ymweld ag ef yn wythnosol, ac mae'n cael ei chynnwys bob amser yng ngofal ei brawd gan y staff sydd ar ddyletswydd. Dywedodd fod ei weithiwr allweddol 'yn wych gydag ef, fel y mae'r staff i gyd' ac nid oes ganddi gwynion am y cartref o gwbl.

**3.6.2** Gofynnwyd hefyd am adborth oddi wrth Weithiwr Cymdeithasol un o'r preswylwyr a dywedodd fod adolygiad diweddar wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ymddengys fod staff yn frwdfrydig, ac mae ganddynt wybodaeth dda ynglŷn â risgiau a chynlluniau rheoli. Ymddengys hefyd fod tystiolaeth dda o ran dilyniant trigolion, yn datblygu sgiliau a dod yn fwy annibynnol.

### **3.7** Cyflwyno a Hyfforddiant

Darparwyd y matrices hyfforddiant ar gyfer staff. Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol i staff yn gyfredol. Nodwyd bod pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant Epilepsi ond roedd hyn peth amser yn ôl, ac er nad yw'n orfodol, argymhellir bod staff yn mynychu hyfforddiant gloywi.

### **3.8** Goruchwyllo a Gwerthuso

**3.8.1** Darparwyd y matrices goruchwyliaeth ac roedd yn dangos bod yr holl staff wedi derbyn goruchwyliaeth bob dau fis, yn unol â'r amllder sy'n ofynnol gan y safonau gofynnol cenedlaethol.

**3.8.2** Roedd arolygon blynyddol hefyd wedi'u cynnal yn ddiweddar gyda staff.

### **3.9** Materion Staffio

**3.9.1** Nodwyd bod 1 aelod o staff wedi gadael 3 Woodside yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd iechyd gwael.

**3.9.2** Penodwyd rheolwr newydd a fydd yn cwmpasu dau eiddo ac mae rheolwr cyffredinol PRESS wedi gwneud cais i fod yn rheolwr cofrestredig gyda'r AGGCC.

**3.9.3** Hysbyswyd y Swyddog Monitro Contractau nad oedd unrhyw aelod o staff ar salwch hirdymor ar adeg yr ymweliad ac nad oedd unrhyw staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Mae gan PRESS grŵp o staff llanw profiadol gall cael eu defnyddio os oes angen.

### **3.10** Diddordebau a Gweithgareddau

**3.10.1** Mae trigolion yn gallu gadael i aelodau staff wybod yr hyn y maent am wneud naill ai ar lafar neu drwy ystumiau. Dywedwyd i'r Swyddogion Monitro Contract wrthym fod cyfarfodydd adolygu, sgysiau gweithiwr allweddol, cyfarfodydd tŷ, ymgynghori â'r canolfannau dydd a'r perthnasau oll yn cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am yr hyn y mae trigolion am wneud.

**3.10.2** Roedd tystiolaeth o weithgareddau yn cael eu cofnodi a'u cynnwys ar y cynlluniau gwasanaeth. Nododd ffeil y preswlydd tystiolaeth eu bod yn mynychu gweithgareddau amrywiol yn wythnosol.

### **3.11** Iechyd a Diogelwch Tân

Dywedwyd wrth y Swyddogion Monitro bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob 3 mis a bod pob aelod o staff yn cymryd rhan. Caiff yr asesiad risg tân ei ddiweddarau bob blwyddyn.

### **3.12** Cymhorthion a Chyfarpar Symudedd

Yr unig gymhorthion ac offer symudedd a ddefnyddir gan drigolion yw fframiau cerdded a chadeiriau olwyn am bellteroedd hir. Mae'r rhain yn cael eu gwirio bob dydd a'u gwasanaethu'n briodol.

### **3.13** Amgylchedd y Cartref

**3.13.1** Gwelwyd gan y Swyddogion Monitro Contractau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr holl feysydd a welwyd wedi'u cadw'n lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw arogleuon annymunol.

**3.13.2** Nid oes ystafell ysmegu ddynodedig yn yr eiddo, gan nad oes un o'r preswylwyr presennol yn ysmegu, felly nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i ddarparu ystafell ar hyn o bryd.

**3.13.3** Yn ystod yr ymweliad, roedd y Swyddogion Monitro Contractau yn gallu gweld i mewn i un o'r ystafelloedd gwely'r preswylwyr ac roedd tystiolaeth o lawer o bersonoli yn yr ystafell.

**3.13.4** Nid oes gan unrhyw breswilydd gyfrifoldeb am unrhyw allweddi. Mae hyn wedi cael ei drafod gyda phreswylwyr sydd wedi dewis peidio â chadw allweddi ac mae hyn wedi cofnodi ar y cynlluniau gwasanaeth unigol.

**3.13.5** Mae gwelliannau pellach yn cael eu cynllunio ar gyfer yr eiddo, gan gynnwys ailwampio'r ystafell ymolchi i ymgorffori ystafell wlyb a gwaith addurno.

### **3.14** Maeth

**3.14.1** Mae'r preswylwyr yn cymryd rhan wrth ddewis y fwydlen ac yn ogystal yn penderfynu beth y byddent yn hoffi bwyta, maent yn cael cynnig dewis bob amser. Yn ogystal, nid oes unrhyw amseroedd bwyd penodol, gall trigolion fwyta ar yr adeg sy'n addas iddynt hwy.

**3.14.2** Mae'r holl drigolion yn cymryd rhan wrth ymweld â siopau i brynu'r siopa ar gyfer y cartref.

**3.14.3** Mae deiet iach yn cael ei sicrhau wrth gefnogi'r preswylwyr i ddewis opsiynau iach lle bo modd a thrwy fonitro ennill a cholli pwysau. Cynhaliwyd trafodaethau gyda staff sydd wedi dangos gwybodaeth dda am anghenion maethol y preswilydd a monitro pwysau.

**3.14.4** Roedd tystiolaeth hefyd a welwyd bod un preswilydd yn derbyn mewnbwn oddi wrth y Tîm Iaith a Lleferydd.

### **3.15** Cwestiynau Staff

**3.15.1** Bu'r swyddog monitro contractau yn gallu siarad ag un aelod o staff wrth ymweld â'r cartref.

**3.15.2** Caiff staff eu cynghori ac yn derbyn gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm. Caiff unrhyw newidiadau o ran cynllun gwasanaeth/asesiad risg y preswylwyr yn cael eu cyfleu i staff sydd rhaid wedyn darllen y gwaith papur perthnasol a llofnodi a dyddio hynny er mwyn cadarnhau eu bod wedi ei ddarllen.

**3.15.3** Mae'r cartref yn gweithredu system gweithiwr allweddol ar gyfer preswylwyr sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau, siopa, anghenion/apwyntiadau iechyd ac unrhyw newidiadau o ran cefnogaeth.

**3.15.4** Dywedodd yr aelod staff ei bod yn cael ei ymgynghori â hwy ac yn wybodus ynglŷn â rhediad cyffredinol y cartref ac yn teimlo y caiff ei wrando wrth awgrymu gwelliannau. Mae hyn yn amlwg o'r gwelliannau diweddar i'r ystafell ymolchi a awgrymwyd gan y staff.

**3.15.5** Teimlai'r staff eu bod yn gallu nodi eu hanghenion hyfforddiant eu hunain ac yn gallu gofyn am hyfforddiant perthnasol pan fo angen.

### **3.16** Cwestiynau Defnyddwyr y Gwasanaeth

**3.16.1** Bu'r swyddog monitro contractau yn gallu siarad gydag un preswilydd wrth ymweld â'r cartref.

**3.16.2** Mynegodd y preswilydd ei fod yn hapus yn byw yn y cartref a gyda'r staff sy'n ei gefnogi.

**3.16.3** Hysbysodd i'r swyddog monitro contractau ei fod yn mynychu llawer o weithgareddau y tu allan i'r cartref gan fynychu digwyddiadau chwaraeon yn ogystal â chael mynediad at y gymuned leol.

### **3.17** Sicrwydd Ansawdd

Ceisiwyd am gopi o'r adroddiad sicrhau ansawdd diweddaraf oddi wrth PRESS ond yn anffodus nid yw ar gael ar hyn o bryd. PRESS i gyflwyno adroddiad i'r Tîm Comisiynu o fewn CBSC pan fydd ar gael.

## **4.** **Camau Gweithredu Cywirol / Datblygiadol**

### **4.1** Camau Cywirol

**4.1.1** Sicrhau y caiff Cynlluniau Gwasanaeth eu llofnodi a'u dyddio gan y staff, rheolwr, preswilydd neu berthynas y preswilydd, er mwyn dangos tystiolaeth cynwysoldeb wrth ddatblygu Cynllun Gwasanaeth. (SGC 6.6)

**Amserlen: Ar unwaith ac ar fynd.**

### **4.2** Camau Datblygiadol

**4.2.1** Staff i sicrhau bod y blwch Sylwadau yn cael ei ddefnyddio ar y cofnodion papur dyddiol i roi darlun o les y preswilydd ar gyfer y diwrnod hwnnw.

**Amserlen: Ar unwaith ac ar fynd.**

**4.2.2** Copi o'r adroddiad SA i'w anfon ymlaen at y Tîm Comisiynu a'i rannu gyda'r holl randdeiliaid.

**Amserlen: O fewn deufis o ddyddiad yr adroddiad..**

**4.2.3** I nodi tystiolaeth bod yr holl staff gofal wedi gweld a darllen y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer pob preswilydd gan ddefnyddio taflen arwyddo.

**Amserlen: Ar unwaith ac ar fynd.**

**4.2.4** Staff i fynychu hyfforddiant gloywi Epilepsi.

**Amserlen: O fewn chwe mis o ddyddiad yr adroddiad**

5. **Casgliad**

Mae'r cartref yn teimlo'n hamddenol a chroesawgar gan ddarparu amgylchedd cefnogol ar gyfer y preswylwyr.

Roedd y staff yn wybodus ynghylch cymorth y preswylwyr ac mae ganddynt berthynas dda gyda nhw.

Ceisiodd y swyddog monitro contractau adborth gan aelod o'r teulu a gweithiwr cymdeithasol un o'r trigolion a chafwyd adborth cadarnhaol gan y ddau.

Yn unol â strategaeth monitro contractau Caerffili, bydd ymweliad monitro arall i'r swyddfa'n cael ei wneud mewn tua 12 mis oni fernir bod angen iddo gael ei wneud cyn hynny.

Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r staff sy'n cefnogi'r preswylwyr am eu hamser a'u lletygarwch.

**Awdur(on):** Ceri Williams  
**Teitl Swydd:** Swyddog Monitro Contractau  
**Dyddiad:** 12<sup>fed</sup> Mai 2017

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i breswylwyr y dyfodol a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.